Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd
Cadeirydd
Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

25 Mai 2018

Annwyl Arglwydd Thomas

Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Yn dilyn ein cyfarfod ym mis Mawrth, trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol waith y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru yn ystod ei gyfarfod ar 30 Ebrill 2018, a nododd eich bod ar hyn o bryd yn gwahodd cyflwyniadau ysgrifenedig.

Byddwch yn ymwybodol bod y pwyllgor a'n rhagflaenodd wedi cynnal ymchwiliad i awdurdodaeth ar wahân i Gymru, ac wedi cyflwyno adroddiad ar y pwnc yn 2012. Nid oedd y Pwyllgor hwnnw'n argymell creu awdurdodaeth ar wahân, ond nododd fod hunaniaeth gyfreithiol Cymru yn cryfhau. O ganlyniad i hyn, roedd yr adroddiad yn awgrymu y dylid gwneud newidiadau o fewn model unedig presennol Cymru a Lloegr i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r hunaniaeth gyfreithiol hon sy'n dod i'r amlwg. Hoffwn dynnu sylw'r Comisiwn at yr adroddiad hwn ar ***Awdurdodaeth ar wahân i Gymru***, a gyhoeddwyd yn 2012. Rwy'n gobeithio y bydd casgliadau'r adroddiad o gymorth i chi wrth i chi adolygu'r modd y mae'r system gyfiawnder yng Nghymru yn cael ei gweithredu ac yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer ei dyfodol.

Yn gywir,

Mick Antoniw
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.